# Polisi Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n gysylltiedig â Byd Gwaith Ysgol Gyfun Gŵyr

(Mae'r polisi hwn yn gysylltiedig â nifer o erthyglau y CCUHP ee. Erthyglau 6, 27,32)

## POLISI ADDYSG BYD GWAITH

**Gweledigaeth**

Trwy ddarparu Addysg Byd Gwaith yn rhan statudol o ddarpariaeth Cwricwlwm i Gymru ein hysgol ein nod yw creu dysgwyr hyderus, uchelgeisiol, mentrus a chreadigol sydd yn barod i oresgyn rhwystrau a dilyn a gwireddu eu dyheadau proffesiynol. Credwn yn gryf mewn darparu cyfleoedd a phrofiadau i ddisgyblion sydd wedi eu gwreiddio mewn sgiliau trosglwyddadwy sy'n allweddol i lwyddo yn y byd gwaith e.e. y sgiliau Trawsgwricwlaidd fel sgiliau Llythrennedd, Cymhwysedd Digidol a Rhifedd ac hefyd y Sgiliau Cyfannol e.e. creadigrwydd, datrys problemau, meddwl yn feirniadol, effeithiolrwydd personol. Dyma sgiliau sylfaenol sy'n rhaid eu caffael er mwyn sicrhau y caiff pob unigolyn y cyfleoedd gorau mewn bywyd ynghyd â mynediad i fyd y gwaith. Fel sefydliad dysgu mae'n allweddol ein bod yn sicrhau cyfleoedd i'n dysgwyr hefyd i gael y cyfle i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r maes gyrfaoedd a'r byd gwaith a dysgu sut mae eu hastudiaethau a'u dysgu yn cyfrannu at eu paratoi ar gyfer bywyd gwaith a'r byd mawr yn gyffredinol. Ein nod sylfaenol fel sefydliad addysgiadol yw sicrhau ein bod yn cefnogi ac arwain ein dysgwyr i fedru :-

- adnabod eu rhinweddau personol a'u gwendidau
- addasu a thyfu'n fwyfwy ymwybodol o'u cymunedau gwaith lleol o ran moeseg, diwylliant a thraddodiadau.
- tyfu'n ddysgwyr hunanymwybodol sy'n gallu cyfrannu'n fentrus ac yn greadigol mewn bywyd a gwaith.

**Rhagarweiniad**

Mae'r newidiadau ym myd busnes a diwydiant yn debygol o gael effaith mawr ar sefyllfaoedd gwaith yn ogystal ag hyfforddiant ac addysg. O ganlyniad mae patrymau gyrfau a'r byd gwaith yn newid yn sylfaenol. Bydd angen sylfaen gadarn o wybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau ac ymroddiad i addysg gydol oes ar ein disgyblion wrth i'r alw am swyddi newid yn gyson.

## Addysg Byd Gwaith

Mae addysg gyrfaoedd a'r byd gwaith yn ymwneud â'r perthnasau rhwng pobl ifanc, eu dysgu a'r byd gwaith. Dylai cwmpasu pob agwedd o brofiadau gwaith yr unigolyn. Dylid nodi

- fod gan ysgolion rôl allweddol yn y dasg o hyrwyddo cyfleon, mynediad a dewis i'n disgyblion
- fod datblygiad gyrfa yr unigolyn yn digwydd drwy gydol ei fywyd. Dylai ysgolion weithio gyda darparwyr addysg ac hyfforddiant eraill i sicrhau fod disgyblion yn meddu ar sylfaen y gellir adeiladu arno er mwyn sicrhau cynnydd
- mai dim ond un agwedd ar fywyd unigolyn yw gwaith. Fel rhan o ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgybl dylai ysgolion helpu disgyblion i ddeall ystyr a gwerth gwaith i gymunedau ac i'r wlad.
- fod mwy nag un math o waith ar wahân i gyflogaeth. Dylai ysgolion helpu i baratoi disgyblion ar gyfer amrywiaeth o brofiadau gan gynnwys cyflogaeth, hunan-gyflogaeth, gwaith gwirfoddol, gwaith yn y tŷ, a gwaith yn y gymuned.

**Amcanion**
Ymrwyma'r ysgol i gynllunio a chyflwyno rhaglen Addysg Byd Gwaith fel rhan o'i darpariaeth addysgol. Mae'r rhaglen yn helpu'r disgyblion i ddatblygu sgiliau, agweddau a medrau allweddol a fydd yn eu galluogi i weithredu'n effeithiol mewn gwahanol fathau o waith, ac a fydd hefyd yn eu helpu i ymdopi wrth drosglwyddo o fywyd yr ysgol i fywyd oedolyn.

Mae gweithredu'r polisi Cydraddoldeb, Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant yn elfennau pwysig yn y ddarpariaeth, tra bod y polisi Gofal Bugeiliol, Rhaglen Addysg Byd Gwaith, Profiad Gwaith, y Gwasanaeth Ymgynghori Gyrfaoedd a'r Gwasanaeth Mentora sy'n defnyddio cyflogwyr lleol, i gyd â'u rhan.

Mae'r maes Addysg Byd Gwaith dan arweiniad cydlynydd Byd Gwaith yr ysgol sydd yn atebol i'r aelod o'r TARh sydd â goruchwyliaeth dros Addysg Byd Gwaith. Ystyriwn fod gan bob athro / athrawes ei ran / rhan yn y rhaglen, yn arbennig wrth adolygu Profiad Gwaith, wrth weithio tuag at y fagloriaeth Gymreig canolradd ac uwchradd, ac wrth fod yn rhan o weithgareddau'r Rhaglen Byd Gwaith. Yn ogystal i hyn, mae gan bob athro o fewn y chwech MDaPh gyfrifoldeb i gyflwyno elfennau Addysg Byd Gwaith yn ol y 5 disgrifydd a rhoddwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynorthwyo wrth fapio darpariaeth Addysg Byd Gwaith yng nghyfnod allweddol 3. Dros amser, wrth adnabod bylchau a chyfleodd bydd yn gyfle i ystyried cyfleoedd a gwreiddio rhain fel elfennau o fewn i bob pwnc a MDaPh.

**I. Hunan-ddealltwriaeth a'r gallu i ddatblygu a chyflawni potensial :**
Anelwn at gynnig cyfle i'n disgyblion i asesu eu hanghenion, eu diddordebau, eu gwerthoedd, eu galluoedd a'u dyheadau a'r cyfle i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau allweddol, a'r hunan-ddibyniaeth sydd ei angen ar weithwyr. Gwneir hyn trwy gyfrwng gweithgareddau'r Dystysgrif Her Sgiliau/ Bagloriaeth Gymreig CA4/5.

**II. Ymchwil i Yrfâu a Chyfleon**
Darparwn y cyfleusterau a'r cyfleon i'r disgyblion allu ymchwilio i gyfleon addysgol, hyfforddiant a gwaith a'r cyfle i feithrin profiad uniongyrchol o waith fel rhan o'r cwricwlwm. Gwneir hyn fel rhan o'r Dystysgrif Her Sgiliau/ Bagloriaeth Gymreig a a thrwy 'Dysgu Byw'.

**III. Gweithredu Cynlluniau Gyrfaol**
Anelwn at ddatblygu gallu'r disgyblion i weithredu eu cynlluniau gyrfaol unigol. Rhaid iddynt gael mynediad i ffynonellau cyngor ac arweiniad. Anelwn at ddatblygu eu gallu i addysgu a gwerthuso cyngor a phenderfyniadau ac i ddygymod â newid. Dylent ddatblygu sgiliau sy'n caniatáu iddynt wneud trosglwyddo effeithiol, megis ysgol i waith neu ysgol i addysg uwch. Gwneir hyn trwy'r gwersi Tysytysgrif Her Sgiliau, Bagloriaeth Gymreig uwchradd , y rhaglen 'Dysgu Byw', cyfweliadau unigol gyda'r Tiwtor Personol/Anogwr Dysgu a thrwy sesiynau arweiniol gyda'r Swyddog Gyrfau fel grwpiau neu mewn cyfweliadau unigol.

**Cynnwys y Rhaglen :**
Mae'r rhaglen yn cynnwys gweithgareddau ar yr isod:
- cynllun gweithredu unigol er mwyn helpu'r disgybl i adnabod ei gryfderau a'i wendidau yn academaidd ac yn bersonol, deall ei amcan a thargedau yn y tymor byr a thymor hir
- sgiliau astudio
- sgiliau gwneud dewisiadau
- sgiliau cyfathrebu

- sgiliau meddwl
- sgiliau ymchwilio i swyddi
- sgiliau llenwi ffurflenni cais a llythyron cais a llunio CV
- sgiliau cyfweld
- iechyd a diogelwch yn y gweithle
- opsiynau yn 14+, 16+ a 18+
- menter
- stereoteipio
- gwybodaeth am ddyletswyddau swyddi
- gwybodaeth am gyflogau
- gwybodaeth am sut i ymchwilio am swyddi
- gwybodaeth am gyrsiau coleg ac ysgol
- cyfnodau i ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth i ymchwilio gwe fannau gyrfaol

**<u>Rhaglen Addysg Byd Gwaith a chynnwys Gwersi Addysg Byd Gwaith o fewn Y Fagloriaeth Gymreig/Tystysgrif Her Sgiliau a boreau 'Dysgu Byw'</u>**
Nod y rhaglen hon yw sicrhau profiad 'byd gwaith' i bob Cyfnod Allweddol trwy gyfrwng gweithgareddau amrywiol megis:

- Dyddiau Menter a Busnes/Entrepreneuriaeth /CA4
- Menter yr Ifanc CA5
- Ffug-gyfweliadau gan gyflogwyr lleol o fusnes, diwydiant a'r gwasanaethau cyhoeddus CA4/CA5
- Addysg yn gysylltiedig a'r byd gwaithCA4/CA5
- Mentoriaid allanol o'r byd gwaith CA4/CA5
- Cynllun Gwobrwyo Presenoldeb/Prydlondeb da – siaradwyr o'r byd gwaith- CA3 a CA4
- Seremonïau Clod Diwedd Blwyddyn –rhagoriaethau personol sydd yn paratoi disgyblion ar gyfer y byd gwaith- siaradwyr o'r byd gwaith/Llywodraethwyr

**<u>Hunan-werthuso</u>**
Mae'r ysgol yn gefnogol iawn i gynnwys y broses o gynllunio gyrfaol o fewn y broses hunan-werthuso a hybir ar draws y cwricwlwm. Y nod yw i greu cyfundrefn sy'n cydnabod y disgybl cyfan ac felly'n uno'r profiadau a'r cyngor i fewn i un Cynllun Gweithredu. Yn sylfaen i hyn i gyd anelir at alluogi disgyblion i :

- ddiffinio'n glir eu nodau personol, gyrfaol ac addysgol
- ddeall y rhyngberthynas rhwng eu nodau personol, gyrfaol ac addysgol
- ddangos eu rheolaeth o'u datblygiad personol
- gydnabod esblygiad eu sgiliau personol
- cymryd rhan yn y broses ymgynghori

**<u>Addysg Byd Gwaith</u> :**
Glynir at brif nodau ac amcanion yr ysgol wrth gyflwyno Addysg Byd Gwaith. Anelwn at gynnig Addysg Byd Gwaith mewn awyrgylch gefnogol, hapus a Chymreig a gan geisio ateb anghenion y disgybl fel unigolyn. Ar bob cyfle byddwn yn annog y disgyblion i ddatblygu hunan barch ac agweddau cadarnhaol a chyfrifol. Rhydd

Addysg Byd Gwaith gyfle i ddisgyblion ddatblygu a meithrin sgiliau academaidd a phersonol pwysig. Fe'i hanogir i gymhwyso eu gwybodaeth ac i wneud penderfyniadau doeth ac i osod targedau realistig. Cynigir agwedd ychwanegol ar fywyd addysgol disgybl gan Addysg Byd Gwaith.

**Cyflwyno Addysg Byd Gwaith**

Yn CA3 cyflwynir Addysg Byd Gwaith fel rhan o'r rhaglen 'Dysgu Byw' a Chwricwlwm i Gymru. Yn CA4 mae Addysg Byd Gwaith yn rhan annatod o rai o'r heriau penodol o fewn Y Dystysgrif Her Sgiliau ac yn rhan o rhaglen 'Dysgu Byw' yr ysgol. Yn CA5 plethir Addysg Byd Gwaith i'r rhaglen 'Dysgu Byw' ac fel rhan o'r Fagloriaeth Gymreig Uwchradd .Mae gan bob pwnc ar draws y cwricwlwm ym mhob Cyfnod Allweddol ei rôl o ran hybu Addysg Byd Gwaith sydd yn berthnasol i'r pwnc.

**Ymgynghori :**

Anelwn at greu awyrgylch o drafod cyson yn ystod gyrfa y disgyblion yn Ysgol Gyfun Gŵyr. Anogwn ein disgyblion i ofyn am gymorth ac arweiniad pe bai angen, drwy ddefnyddio y Tiwtoriaid Dosbarth, y Pennaeth Blwyddyn, yr athro sy'n gyfrifol am Addysg Byd Gwaith neu'r Swyddog Gyrfau sydd wedi ei gytundebu i fod ar gael i ymateb i geisiadau am gyngor gan y disgyblion.
Mae pob disgybl yn derbyn cyfweliad proffesiynol gyda'r Swyddog Gyrfau yn CA4 a'r Chweched Dosbarth. Mae 'Cynllun Gweithredu Gyrfaol' yn cael ei ddatblygu, gan trafod, monitro ac addasu'r cynllun gyda disgyblion yn reolaidd.

**Profiad Gwaith :**

Gellir diffinio "Profiad Gwaith" fel cyfnod gyda chyflogwr', ble mae disgybl yn cyflawni tasg neu dasgau cyfrifoldeb neu gyfrifoldebau amrywiol, yn unol ag arfer y gweithle arbennig ond gyda'r pwyslais ar yr elfen addysgol. Anogir disgyblion blwyddyn 12 i drefnu cyfnod o brofiad gwaith eu hunain yn enwedig myfyrwyr sy'n ystyried cyrsiau addysg uwch penodol sydd yn gofyn am brofiad gwaith. Y disgybl a'i rieni sydd yn trefnu'r profiad gwaith. Y nod yw i gynorthwyo pobl ifanc :

- i ddatblygu hunan-gynhaliaeth, blaengaredd a'r gallu i weithio gydag eraill
- i baratoi eu hunain ar gyfer y byd gwaith a'u hymwybyddiaeth o ofynion diwydiant
- i ehangu a dyfnhau eu dealltwriaeth o gyfleon gyrfau.

**Gweithio gyda Rhieni :**

Cydnabyddir rôl bwysig rhieni yn y broses o gefnogi disgyblion wrth iddynt wneud penderfyniadau ar eu dyfodol. Ceisiwn gydweithrediad a thrafodaeth gyson gyda'r rhieni. Bydd y Swyddog Gyrfau yn mynychu'r cyfarfodydd perthnasol ar gyfer rhieni ac yn agored i drefnu cyfweliadau unigol.

**Gweithio gydag Asiantiaeth Allanol :**

Derbynnir fod angen trefnu ymweliadau gan siaradwyr gwadd a'u bod yn cael eu gwahodd i gynnig cyngor gwrthrychol a rhannu profiadau'r byd gwaith.
Bydd yr ysgol yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Gyrfau Cymru. Credir yn gryf fod meithrin cysylltiadau adeiladol ac agos gyda busnesau ac asiantaethau allanol yn hybu proffesiynoldeb ac effeithiolrwydd y gwasanaeth ac Addysg Byd Gwaith o fewn yr ysgol ynghyd â chyfoethogi profiadau'r disgyblion.
Cydnabyddir pwysigrwydd y cysylltiad â'r cyflogwr yn y broses o werthuso yr hyn a gynigir gan yr ysgol ac hefyd yr hyn a gynigir gan y disgybl a cheir cyfle ffurfiol i wneud hyn yn y cynllun Ffug-gyfweliadau lle rhoddir adborth uniongyrchol i'r disgybl a'r ysgol.
Yn ychwanegol, pwysig fydd cydweithio a Gwasanaeth Gyrfau Cymru fel pwynt cyswllt ar gyfer rhanddeiliaid allanol er mwyn trefnu gweithgaredd ffug-gyfweliadau blynyddol. Mae'r cynghorydd gyrfa ar gyfer yr ysgol yn elfen bwysig o'r ddarpariaeth a rhoddir i ddisgyblion CA4 a CA5. Cynhelir cyswllt rheolaidd rhwng penaethiaid blwyddyn bl10-13 a'r cynghorydd gyrfa er mwyn adnabod grwpiau targed megis PYD's a disgyblion unigol sydd angen cymorth wrth gynllunio camau nesaf. Mae'r cynghorydd gyrfa hefyd yn gyfrifol am weithio gyda grwpiau yn CA3 wrth gyflwyno a cynnig darpariaeth mewn sesiynau 'Dysgu Byw' megis i flwyddyn

9 wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau TGAU. Cynhelir cyfarfodydd ar ddiwedd bob blwyddyn academaidd rhwng y cynghorydd gyrfa, y cydlynydd ysgol a Gyrfau Cymru, sef Cytundeb y Bartneriaeth, er mwyn myfyrio ar y flwyddyn academaidd mwyaf diweddar ac i gynllunio'r flwyddyn nesaf.

**<u>Gwerthuso a Monitro</u> :**
Mae gan yr ysgol gytundeb gyda Gwasanaeth Gyrfau Gorllewin Cymru ac mae’r cytundeb yn cael ei adolygu’n flynyddol. Bydd cydlynydd Addysg Byd Gwaith yr ysgol yn cyfarfod gyda’r Swyddog Gyrfau i werthuso’r ddarpariaeth ar gyfer y flwyddyn a aeth heibio ac yn gwneud addasiadau a newidiadau yn ôl y gofyn. Yn ogystal, bydd Rheolwr Cyswllt o’r TARh yn gweithio gyda Chydlynydd Addysg Byd Gwaith yr ysgol i fonitro’r gwasanaeth yn flynyddol ac i werthuso’r ddarpariaeth. Yn ogystal, bydd disgwyl i’r athrawon sy’n cyflwyno’r tasgau Addysg Byd Gwaith werthuso effeithiolrwydd y tasgau ar y cyd gyda chydlynydd Addysg byd Gwaith yr ysgol a gyda cydlynydd y Fagloriaeth Gymreig  gan ddefnyddio mewnbwn gan y disgyblion. Rhennir y wybodaeth yma gyda’r Gwasanaeth Gyrfau, y disgyblion, rhieni a’r llywodraethwyr. Byddwn hefyd yn cydweithio’n agos ac yn rheolaidd gyda ysgolion cynradd er mwyn sicrhau bod pontio rhwng y cynradd a’r uwchradd yn broses cyfoethog a chynyddol. Caiff hyn ei addasu yn ôl gofynion mewn cyfarfodydd pontio a’r MDaPh perthnasol.

*(Adolygwyd: Gorffennaf 2026)*